

Cynnwys

DYSGU ANNIBYNNOL DAN GYFARWYDDYD: TROSOLWG.....	2
Her dysgu annibynnol	2
Diffinio Dysgu Annibynnol dan Gyfarwyddyd	3
Manteision Dysgu Annibynnol dan Gyfarwyddyd.....	4
Pryd a ble mae myfyrwyr yn dysgu yn annibynnol?	5
Sut mae dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd effeithiol yn edrych?.....	6
Y Dull 3E: Gwella Ymestyn Grymuso (Enhance Extend Empower)	7
Agweddau ar annibyniaeth dysgu.....	8
Cyfeiriadau – Trosolwg o Ddysgu Annibynnol dan Gyfarwyddyd	9

DYSGU ANNIBYNNOL DAN GYFARWYDDYD: TROSOLWG

Mae llawer wedi cael ei ysgrifennu am ddysgu annibynnol dros y degawd neu ddau ddiwethaf, ond un gwaith allweddol yng nghyd-destun addysg uwch gyfoes yn y DU yw *Effective practice in the design of directed independent learning opportunities* (fersiynau llawn a chryno) Thomas, Jones ac Ottaway o 2015 a'r ddogfen atodol, *Compendium of effective practice in directed independent learning*. Mae'r trosolwg hwn a'r adnoddau ategol yn manteisio ar y rhain a gwaith diweddar arall, gyda'r nod o'u hategu trwy gynnis cyflwyniad cryno i syniadau cyfredol am ddysgu annibynnol dan gyfarwyddyd i staff academiaidd a mentoriaid, yn ogystal â chyfres ymarferol o ddulliau y gallant eu defnyddio wrth ddylunio ymriadau i gynorthwyo eu myfyrwyr fel dysgwyr annibynnol sy'n datblygu.

Her dysgu annibynnol

... math o astudio sydd yn gwbl ganolog i addysg prifysgol

...

... i lawer o fyfyrwyr, dysgu annibynnol fydd un o'r agweddau anoddaf ar astudio ar y lefel uwch. Mae'n fath o astudio sy'n gwbl ganolog i addysg prifysgol ac yn elfen hollbwysig ar gyfer cwblhau gradd yn llwyddiannus. Ond, pan ddaw i'w gynorthwyo a'i ddatblygu, nid oes dealltwriaeth arbennig o dda ohono bob amser. (Thomas, 2015b: 4)

... nid oes unrhyw amheuaeth bod llawer o fyfyrwyr yn wynebu **anawsterau difrifol** wrth ymgymryd â dysgu annibynnol ...


... nid oes unrhyw amheuaeth bod llawer o fyfyrwyr yn wynebu anawsterau difrifol wrth ymgymryd â dysgu annibynnol – hyd yn oed os byddant yn dod i'w groesawu. Bydd y mwyafrif wedi bod trwy system addysg lle mae caffael gwybodaeth yn golygu proses sydd fwy neu lai'n dryloyw, wedi ei rhagnodi'n llym a'i chyfarwyddo'n agos. Mewn llawer o ffyrdd, ni allai'r cyferbyniad ag astudio ar y lefel uwch fod ddim mwy. Yma, disgwylir i'r myfyrwr nodi gwybodaeth, dod o hyd iddi a'i hamgyffred mewn ffordd llawer mwy ymreolaethol – cymaint felly y byddant yn aml yn teimlo fel eu bod wedi cael eu torri'n beryglus o rydd mewn dyfroedd hynod anghyfarwydd. (Thomas, 2015b: 4)

Diffinio Dysgu Annibynnol dan Gyfarwyddyd

Ceir gwahanol ddiffiniadau o ddysgu annibynnol dan gyfarwyddyd yn y llenyddiaeth, ond dyma'r diffiniad at ddiben y gwaith hwn


fe'i deallir fel dysgu lle caiff myfyrwyr eu llywio gan gynnwys y cwricwlwm, addysgeg ac asesu, a'u cynorthwyo gan staff a'r amgylchedd dysgu, a lle mae myfyrwyr yn chwarae rhan weithredol yn eu profiad dysgu – naill ai ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â chymheiriaid. Cânt eu cynorthwyo yn eu dysgu annibynnol gan adnoddau dysgu, gan gynnwys llyfrgelloedd, deunyddiau ar-lein ac amgylcheddau dysgu, a manau dysgu ffisegol; a chan ddatblygiad eu gallu academaidd naill ai drwy'r cwricwlwm craidd neu trwy wasanaethau cymorth ychwanegol. (Thomas, 2015b: 7 – 8)

mae dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd yn disgrifio un o'r prosesau y mae myfyrwyr addysg uwch yn ymgysylltu â'r cwricwlwm - a staff academaidd - drwyddynt, i gyflawni nodau dysgu. Gallai hefyd gynnwys rhyngweithio â chymheiriaid, staff addysg uwch eraill, cyflogwyr, cymunedau, teuluoedd a rhanddeiliaid. Mae dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar fyfyrwyr o'i gymharu â'r mathau o ddysgu y maent yn fwyaf tebygol o fod wedi ymgymryd â nhw cyn dechrau addysg uwch. Ond dylai myfyrwyr gael eu cynnwys, eu galluogi, eu hwyluso a'u cynorthwyo gan staff trwy gyfleoedd perthnasol wedi eu cyfarwyddo, addysgegau priodol ac amgylchedd dysgu priodol. Dylai staff sicrhau bod myfyrwyr yn cael cyfleoedd anffurfiol a ffurfiol i dderbyn adborth, a monitro cyfranogiad a dealltwriaeth. (Thomas, 2015a: 8)



Manteision Dysgu Annibynnol dan Gyfarwyddyd

Yn seiliedig ar Thomas et al (2015c: 4)



Pryd a ble mae myfyrwyr yn dysgu yn annibynnol?

... rhoddir sylw i'r dysgu annibynnol a wneir gan fyfyrwyr **ar ôl i'r ddarlith neu'r seminar ddod i ben, ac y tu allan i'r labordy**, mewn gwahanol ffyrdd ac i wahanol raddau. Ond gall dysgu annibynnol ddigwydd – ac mae'n digwydd yn wir – **yn ystod darlithoedd a seminarau** ac ati hefyd, er enghraifft os gofynnir i fyfyrwyr ffurfio grwpiau a myfyrwyr ar fater neu bwnc a godir ynddynt. (Thomas, 2015: 4)


Mae'n ymddangos bod dysgu annibynnol yn fwy effeithiol pan ei fod wedi ei **integreiddio'n llawn i'r rhaglen astudio**, yn eglur ynghylch ei ddiben, ac wedi ei strwythuro i roi eglurder i fyfyrwyr ynghylch yr hyn sy'n ofynnol. Thomas et al, 2015c: 4

Sut mae dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd effeithiol yn edrych?

Mae dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd, yn ei hanfod, yn dderm y mae newid pwyslais yn gysylltiedig ag ef braidd, a allai gael ei ystyried yn ocsimoron o bosibl (h.y. mae dysgu naill ai'n annibynnol neu dan gyfarwyddyd) (Thomas et al, 2015a: 5) ond mewn gwirionedd, mae'n cwmpasu amrywiaeth o ddulliau sy'n gyfarwydd i staff addysg uwch:

Mae **dysgu gweithredol**, **dysgu seiliedig ar ymholiadau**, **dysgu seiliedig ar broblemau**, a **dysgu cymheiriaid** oll yn ddulliau sydd â'r nod o gynnwys myfyrwyr yn fwy uniongyrchol yn y broses o ddysgu; mewn cyferbyniad â'r model addysg trosglwyddo gwybodaeth mwy traddodiadol. (Thomas et al, 2015a: 7)

Llinell cysylltiol




- **Mae angen monitro dysgu annibynnol** i nodi myfyrwyr sydd mewn trafferthion ac angen cymorth.
- **Mae angen proses cam wrth gam neu wedi'i 'sgaffaldio'** i alluogi myfyrwyr i symud o fod yn ddysgwyr annibynnol i fod yn rhai ymreolaethol erbyn diwedd eu haddysg israddedig. (Thomas et al 2015c: 5)
- **Mae asesu yn hollbwysig i ddysgu annibynnol dan gyfarwyddyd effeithiol.** Gall asesu greu **cymhelliad** i fyfyrwyr gymryd rhan, cynnig **dull rhyngweithio** effeithiol rhwng myfyrwyr a staff academiaidd, a chynnig **adborth** i fyfyrwyr i wella eu prosesau astudio a'u canlyniadau yn y dyfodol. (Thomas et al 2015c: 5)

Y Dull 3E: Gwella Ymestyn Grymuso (Enhance Extend Empower)

Model ar gyfer cynnwys myfyrwyr mewn dysgu hunan-gyfeiriedig cynyddol weithredol o gam cynnar yn eu hastudiaethau yw'r dull '3 E', ac mae technoleg yn chwarae rhan bwysig yn y broses hon, yn enwedig pan fo myfyrwyr yn dod o hyd i ddeunydd, yn cynnal asesiad ffurfiannol ac, yn hollbwysig, pan fo gwaith ar y cyd effeithiol a thrafodaeth feirniadol gyda chymheiriaid yn mynd i ddiwydd. (Smyth 2007: 3).

Rhagwelir camau Gwella Ymestyn Grymuso fel continwwm:




Cyfieithu diagram:

Gwella	Ymestyn	Grymuso
Addasiadau syml i arfer addysgu sy'n rhoi mwy o gyfrifoldeb i'r dysgwr	Cyfleoedd newydd ac a ddatblygwyd ymhellach sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r dysgwr wneud penderfyniadau allweddol am sut y mae'n dysgu a beth mae'n ei ddysgu	Caiff addysgu ei ail-ddylunio i sicrhau bod anghenion a diddordebau'r dysgwyr yn ysgogi'r profiad dysgu
Y dysgwr gweithredol	Y dysgwr ymgysylltiedig	Y dysgwr ymreolaethol
Cyfleoedd cymorth cymheiriaid		Arfer cydweithredol

Mathau cymharol o dasgau fel y gallent gael eu gweithredu ar bob cam		
Mae fforymau problemau ar-lein yn gwella cymorth tiwtoriaid/cymheiriaid	Seminarau ar-lein dan arweiniad myfyrwyr	Mae tasgau trafodaeth ar-lein yn cynhyrchu yn hytrach nag ategu cynnwys craidd
Dolenni i astudiaethau achos ar-lein perthnasol i fyfyrwyr eu harchwilio	Myfyrwyr yn dod o hyd i'w hastudiaethau achos eu hunain ar-lein ac yn eu trafod	Myfyrwyr yn cynhyrchu astudiaeth achos ar-lein ar bwnc dethol
Mae gwersi ystafell ddsbarth yn cynnwys tasgau grŵp ar wahân i ymchwilio i faterion allweddol	Caiff gwersi ystafell ddsbarth eu cynnal bob yn ail â thasgau ymchwil ac adrodd wythnosol	Mae prosiect seiliedig ar broblem yn cynnig y pwyslais ar gyfer dysgu o'r cychwyn cyntaf

Agweddau ar annibyniaeth dysgu



Meysydd dysgu sy'n berthnasol i fesur enillion dysgu mewn addysg uwch (Evans et al 2018)

Mae gwaith diweddar ar ddiffinio a mesur enillion dysgu (Evans et al, mewn print) yn nodi amrywiaeth o feysydd dysgu a phriodoleddau y gall, ac y gellid dadlau y dylai myfyrwyr eu datblygu trwy addysg uwch. Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu diwygiad 2001 Anderson a Krathwohl o dacsonomi Bloom, sy'n trafod y meysydd dysgu gwybyddol, affeithiol a seicomodurool, ac yn cydnabod pedair lefel o wybodaeth gan gynnwys meta-wybyddiaeth. Mae'r lefel olaf hon o berthnasedd uniongyrchol i'r gallu i ddysgu yn annibynnol. Gellir ei diffinio fel yr ymwybyddiaeth wybyddiaeth a phrosesau gwybyddol penodol eich hun. Gwybodaeth strategol neu fyfyrion yw hon ynglŷn â sut i fynd ati i ddatrys problemau, tasgau gwybyddol, gan gynnwys gwybodaeth gyd-destunol ac amodol a gwybodaeth am eich hun (Wilson, 2016).

[Cyfieithu diagram: Learning Gain – Enillion Dysgu; Affective – Affeithiol; Behavioural – Ymddygiadol; Cognitive – Gwybyddol; knowledge – gwybodaeth; beliefs – credoau; values – gwerthoedd; attitudes – agweddau; skills – sgiliau; literacies – llythreneddau; social capital – cyfalaf cymdeithasol; 'outcomes' – 'canlyniadau'; Discipline-specific - Penodol i Ddisgyblaeth; Generic – Cyffredinol .]

Wrth ystyried gweithgareddau dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd, mae'r pwyslais yn aml ar ddatblygu priodoleddau gwybyddol fel 'meddwl beirniadol' neu ymddygiadau ar ffurf 'sgiliau astudio', ac yn aml yn cynnwys gweithgareddau myfyrion, ond efallai y byddant yn anghofio ar yr un pryd y ffaith fod y gallu i hunan-fyfyrion (datblygu meta-ymwybyddiaeth) yn ddawn ynddo'i hun y mae angen i fyfyrwyr ei ddatblygu hefyd. Wrth ddylunio cwricwlwm ar gyfer dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd, mae'n werth ystyried sbectrwm ehangach o bosibiliadau

dysgu (meysydd) yn ogystal â datblygu'r meta-sgiliau sydd eu hangen ar gyfer dysgu gwirioneddol ymreolaethol.

Prosesau Gwybyddol

Y Dimensiynau Gwybodaeth	1. Cofio	2. Deall	3. Cymhwys	4. Dadansoddi	5. Gwerthuso	6. Creu
Ffeithiol						
Cysniadol						
Gweithdrefnol						
Meta-wybyddol						

Dimensiynau gwybodaeth (maes gwybyddol) (Anderson a Krathwohl, 2001)

Cyfeiriadau – Trosolwg o Ddysgu Annibynnol dan Gyfarwyddyd

Anderson, L. W. a Krathwohl, D. R., et al (Gol.) (2001) *A Taxonomy for Learning, Teaching, and Assessing: A Revision of Bloom's Taxonomy of Educational Objectives*. Allyn & Bacon. Boston, MA (Pearson Education Group)

Evans, C. et al 2018 *Higher Education Pedagogies Special Issue on Learning Gain* (argraffiad i'w gyhoeddi yn ystod y mis neu ddau nesaf – gellir ychwanegu cyfeiriad llawn bryd hynny)

Healey, M. (2014) *Developing Independent & Autonomous Learning* Taflen na chyhoeddwyd.

Thomas, Liz, Jones, Robert ac Ottaway, James (2015a). *Effective practice in the design of directed independent learning opportunities*. Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a'r Academi Addysg Uwch. heacademy.ac.uk/knowledge-hub/effective-practice-design-directed-independent-learning-opportunities (ymwelwyd ym mis Ebrill 2018)

Thomas, Liz (Gol) (2015b). *Compendium of effective practice in directed independent learning*. Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a'r Academi Addysg Uwch. heacademy.ac.uk/knowledge-hub/effective-practice-design-directed-independent-learning-opportunities (ymwelwyd ym mis Ebrill 2018)

Thomas, Liz, Jones, Robert ac Ottaway, James (2015c). *Effective practice in the design of directed independent learning opportunities: summary of the main research report*. Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a'r Academi Addysg Uwch. heacademy.ac.uk/knowledge-hub/effective-practice-design-directed-independent-learning-opportunities (ymwelwyd ym mis Ebrill 2018)

Wilson, Leslie Owen (2016) *Understanding the New Version of Bloom's Taxonomy: A succinct discussion of the revisions to Bloom's classic cognitive taxonomy by Anderson and Krathwohl and how to use them effectively*. thesecondprinciple.com/teaching-essentials/beyond-bloom-cognitive-taxonomy-revised/ (ymwelwyd ar Ebrill 2018)



Pecyn Cymorth Dysgu Annibynnol Dan Gyfarwyddyd

Prifysgol Abertawe, 2018, gyda chyllid grant gan Advance AU advance-he.ac.uk, a datblygu gan Corony Edwards Consulting coronyedwards.co.uk. Ar gael o dan: Creative Commons Attribution-Non-commercial-ShareAlike 4.0 International Licence creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/